**ATODIAD 2**

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2021/22

| Adran | Cyfanswm Arbedion 2021/22 £ - *nifer* | | Cynlluniau wedi eu gwireddu £ - *nifer* | | Cynlluniau ar drac i gyflawni'n amserol £ - *nifer* | | Cynlluniau sydd yn llithro a gyda rhai risgiau i gyflawni'r arbedion £ - *nifer* | | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Addysg | 65,000 | *1* | 65,000 | *1* | - | | - | | Mae'r un cynllun oedd efo targed yn 2021/22 wedi ei wireddu. |
| Amgylchedd | 73,750 | *4* | 16,250 | *2* | 20,000 | *1* | 37,500 | *1* | Mae'r cynllun *Cyflawni arbedion drwy brynu'n rhatach (e.e. offer swyddfa a TG) gwerth £20k* ar drac i gyflawni'n amserol. Bu oediad ar y cynllun *Darparu pwyntiau gwefru ceir trydan mewn meysydd parcio* , gwerth £37.5k ond mae bellach yn symud yn ei flaen. |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 117,750 | *4* * | 45,250 | *2* | 72,500 | *2* | - | | Mae 2 gynllun ar drac i gyflawni'n amserol sef *Dileu un swydd swyddog adnoddau dynol ac un swydd ymgynghorydd adnoddau dynol (lleihad staffio o 20%) drwy newid ein model gweithredu* (£60k yn 2021/22) a *Dileu'r Gwasanaeth Datblygu Sefydliad* (£12.5k yn 2021/22). Cymeradwywyd gynllun amgen i ddisodli gweddill arbedion yr ail gynllun uchod (£28k) yng Nghabinet 12/10/21. |
| Cyllid | 100,000 | *3* | 80,000 | *2* | - | | 20,000 | *1* | Mae risgiau i gyflawni arbedion y cynllun Cy*nhyrchu incwm drwy atal twyll* (£20k yn 2021/22). Cymeradwywyd gynlluniau amgen i ddisodli'r cynllun hanesyddol *Denu incwm ychwanegol drwy Asiantaeth Casglu Mewnol* (£75k yn 2021/22) yng Nghabinet 28/9/21. |
| Economi a Chymuned | - | | - | | - | | - | | Dim targed arbedion wedi ei broffilio ar gyfer 2021/22. |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 78,750 | *2* | - | | - | | 78,750 | *2* | Mae'r Adran yn rhagweld rhai risgiau i gyflawni arbedion y cynllun *Adolygu'r trefniadau gweithredu o fewn yr Adran Oedolion* (£33.75k) gan fod rhwystrau ar gynlluniau eraill a Covid wedi amharu ar y gallu i symud y cynllun yn ei flaen. Bu oediad ar y cynllun *Gwell cydgordio gwasanaeth gyda'r Adran Plant a Theuluoedd ar adeg oed trosglwyddo* ond mae'n symud yn ei flaen (£45k). |

| Adran | Cyfanswm Arbedion 2021/22<br>£ - *nifer* | | | Cynlluniau wedi eu gwireddu<br>£ - *nifer* | | Cynlluniau ar drac i gyflawni'n amserol<br>£ - *nifer* | | Cynlluniau sydd yn llithro a gyda rhai risgiau i gyflawni'r arbedion<br>£ - *nifer* | | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 23,170 | *1* | | 23,170 | *1* | - | | - | | Mae'r un cynllun oedd efo targed yn 2021/22 wedi ei wireddu. |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 206,250 | *3* | * | - | | - | | 206,250 | *3* | Mae risgiau o gyflawni arbedion y cynllun *Cynyddu ffioedd am gasglu gwastraff gan fusnesau* (£75k yn 2021/22). Mae sefyllfa Covid wedi amharu ar gytundebau masnachol ac felly yn annhebygol o gyflawni'r arbediad eleni. Bu llithriad mewn gwireddu'r arbedion cynllun *Pont Abermaw – peidio talu Network Rail am yr hawl tramwy dros y bont* (£26.25k yn 2021/22). Mae'r Adran yn parhau i fod mewn trafodaethau gyda Network Rail. Yn ogystal bu llithriad ar y cynllun *Newid Teledu Cylch Cyfyng sydd gyda gofalwyr yn monitro i gyfundrefn 'heb ofalwyr' (£105k yn 2021/22).* |
| Ymgynghoriaeth | - | | | - | | - | | - | | Dim targed arbedion wedi ei broffilio ar gyfer 2021/22. |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | - | | | - | | - | | - | | Dim targed arbedion wedi ei broffilio ar gyfer 2021/22. |
| Tai ac Eiddo | 302,050 | *5* | | 206,670 | *3* | 95,380 | *2* | - | | Dau gynllun ar ôl i'w cyflawni ac sydd ar drac i gyflawni'n amserol. |
| **CYFANSWM** | **966,720** | ***23*** | | **436,340** | ***11*** | **187,880** | ***5*** | **342,500** | ***7*** | **Yn nhermau ariannol (£), mae 45% o gynlluniau arbedion 2021/22 eisoes wedi eu gwireddu a 19% pellach ar drac i gyflawni'n amserol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Yn amlwg mae'r adrannau wedi canolbwyntio ar ymateb i'r argyfwng yn y cyfnod ers Ebrill 2020.** |

** cynllun wedi ei wireddu yn rhannol mewn un blwyddyn ariannol ond eto i'w wireddu yn llawn.*